WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Rhagfyr 2010

**Awdur: Philip Jones** **Cyf: 454A2010**

# Arlwyo mewn Ysbytai

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Er bod y gwasanaeth arlwyo yn dangos llawer o arferion da cydnabyddedig, ein casgliad cyffredinol yw bod angen cryfhau gwaith cynllunio a chraffu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r ffordd o fynd i'r afael â'r amrywiaeth mewn safonau ar wardiau a rhwng ysbytai.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb ac Argymhellion** | 4 |
| **Adroddiad Manwl** | |
| **Trefniadau rheoli a chynllunio strategol**<br>Nid oes fframwaith cynllunio strategol ar waith ac nid yw gwaith craffu'r Bwrdd ar risgiau a heriau cysylltiedig mor gryf ag y gallai fod | 9 |
| **Caffael, cynhyrchu a rheoli costau**<br>Mae trefniadau caffael bwyd effeithiol a diogel ar waith er bod systemau cynhyrchu bwyd a rheoli costau yn amrywio, gan awgrymu bod potensial i sicrhau gwell cysondeb a gwella effeithlonrwydd | 12 |
| **Dosbarthu bwyd i'r ward**<br>Mae'r rhan fwyaf o'r wardiau'n derbyn bwyd mewn cyflwr rhesymol er bod lle i wella'r ffordd o ddosbarthu bwyd i rai wardiau a gwella profiad cleifion trwy wneud hynny | 21 |
| **Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad**<br>Yn gyffredinol, mae rheolwyr wardiau'n canolbwyntio ar yr angen i sicrhau cymorth arlwyo a maeth priodol, er bod arferion yn amrywio rhwng wardiau ac ni chofnodwyd rhai agweddau ar statws maeth cleifion o gwbl | 25 |
| **Casglu barn cleifion a rhannu gwybodaeth**<br>Mae barn cleifion ar fwyd ysbyty a'r gwasanaethau arlwyo'n cael ei gasglu mewn sawl ffordd ac mae yna le i wneud y gweithgareddau hyn yn fwy cyson ac i rannu'r canlyniadau'n fwy eang | 29 |
| **Atodiadau** | |
| Y dull archwilio | 31 |
| Cymharu costau | 33 |
| Profiad cleifion - holiadur | 41 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk

## Crynodeb

1. Mae gwasanaethau arlwyo mewn ysbytai yn rhan hanfodol o ofal cleifion ac mae prydau bwyd maethlon, o safon, yn gwneud cyfraniad allweddol at y broses o adsefydlu a gwella cleifion. Mae gwasanaethau arlwyo effeithiol yn dibynnu ar gynllunio a chydgysylltu nifer o brosesau'n drwyadl gan gynnwys cynllunio bwydlenni, caffael, cynhyrchu bwyd a dosbarthu prydau bwyd i wardiau a chleifion. Rhaid cael cyfathrebu da ar draws y grwpiau amrywiol o staff sy'n rhan o'r gwaith, gan gynnwys rheolwyr, staff arlwyo, deietegwyr, nyrsys, staff cymorth a phorthorion.
2. Dylai'r canlyniad fod yn wasanaeth arlwyo hyblyg, cost-effeithiol sy'n cynnig dewis da o brydau bwyd maethlon i ateb gofynion deietegol penodol cleifion. Mae angen i statws maeth cleifion gael ei asesu a'i fonitro'n gywir, a dylid rhoi trefniadau ar waith i helpu cleifion i fwyta a mwynhau eu prydau bwyd mewn amgylchedd sy'n eu hannog i fwyta.
3. Mae pwysigrwydd bwyd ysbyty i helpu gwellhad cleifion wedi cael ei gydnabod mewn nifer o fentrau gan Lywodraeth y Cynulliad. Y fenter ddiweddaraf yw Llwybr Gofal Maeth Ysbytai a datblygiad siartiau cofnodi bwyd Cymru gyfan i gofnodi cymeriant bwyd a diod. Hefyd, cafwyd rhaglen hyfforddi *Gwella Gofal Maethol* i bob rheolwr ward. Mae'r mentrau hyn yn cefnogi menter *Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu* a gynlluniwyd i rymuso prif nyrsys wardiau i gael mwy o reolaeth ar ddigwyddiadau ar eu wardiau. Caiff arferion gorau mewn gofal maeth eu gwreiddio ymhellach drwy Safonau Gofal Iechyd penodol ac offeryn archwilio lefel y ward, *Hanfodion Gofal*.
4. Er bod rhai enghreifftiau calonogol o arfer da'n gysylltiedig ag arlwyo mewn ysbytai, dangosodd gwaith gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn 2001-02 fod angen ailadrodd y rhain yn ehangach a chryfhau arferion mewn nifer o feysydd. Ers hynny, mae data blynyddol ar berfformiad cyfleusterau a gasglwyd gan Stadau Iechyd Cymru wedi tynnu sylw at amrywiadau sylweddol rhwng ysbytai o ran costau dyddiol bwydo claf, a phroblemau parhaus gyda gwastraffu bwyd – gadawyd tua 880,000 o brydau heb eu cyffwrdd yn 2008-09. Awgrymodd data Stadau Iechyd Cymru hefyd fod y broses o gyflwyno arfer da cydnabyddedig, fel amser bwyd wedi'i ddiogelu a dadansoddiad maethol o fwydlenni yn anghyson.
5. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi penderfynu felly ei bod hi'n bryd cynnal gwaith archwilio pellach ar arlwyo mewn ysbytai i adolygu cynnydd ers cyhoeddi adroddiad y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, ac i archwilio i ba raddau y mae arferion a nodwyd yn Llwybr Gofal Maeth Ysbytai yn cael eu cyflwyno.
6. Ceisiodd ein hadolygiad bennu a oedd ysbytai yng Nghymru'n darparu gwasanaethau arlwyo effeithlon sy'n cydymffurfio ag arfer da cydnabyddedig. Edrychodd ein gwaith archwilio ar 'gadwyn fwyd' arlwyo ysbyty o'r gwaith cynllunio a chaffael i ddosbarthu'r bwyd i'r ward a rheoli amser prydau bwyd.

7. Mae ein gwaith gyda'r Bwrdd Iechyd wedi cynnwys gwaith maes ar safleoedd Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Cyffredinol Llandudno, Ysbyty Glan Clwyd, ac Ysbyty Maelor Wrecsam, ac ymweliadau â'r wardiau canlynol:

**Ffigur 1: Wardiau yr ymwelwyd â hwy**

| Ysbyty | Ward |
|---|---|
| Ysbyty Gwynedd | Dulas |
| Ysbyty Gwynedd | Prysor |
| Ysbyty Gwynedd | Tryfan |
| Ysbyty Cyffredinol Llandudno | Marl |
| Ysbyty Cyffredinol Llandudno | Llewellyn |
| Ysbyty Glan Clwyd | Wd 2 |
| Ysbyty Glan Clwyd | Wd 8 |
| Ysbyty Glan Clwyd | AMU |
| Ysbyty Maelor Wrecsam | Derwen |
| Ysbyty Maelor Wrecsam | Evington |
| Ysbyty Maelor Wrecsam | Fleming |

8. Mae canfyddiadau ein harchwiliad yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata ariannol yn ymwneud â'r gwasanaeth arlwyo ar gyfer cleifion a rhai nad ydynt yn gleifion, a hefyd ar arolygon cleifion sy'n crynhoi eu profiad o fwyd ysbyty. Darperir manylion pellach am y dull archwilio yn Atodiad 1.

9. Er bod y gwasanaeth arlwyo yn dangos llawer o arferion da cydnabyddedig, ein casgliad cyffredinol yw bod angen cryfhau gwaith cynllunio a chraffu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r ffordd o fynd i'r afael â'r amrywiaeth mewn safonau ar y wardiau a rhwng ysbytai.

10. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- nid oes gan y Bwrdd Iechyd fframwaith cynllunio strategol ac nid yw gwaith craffu'r Bwrdd ar risgiau a heriau cysylltiedig mor gryf ag y gallai fod;
- mae yna drefniadau caffael bwyd effeithiol a diogel ar waith er bod systemau cynhyrchu bwyd a rheoli costau yn amrywio, gan awgrymu bod potensial i sicrhau gwell cysondeb a gwella effeithlonrwydd;
- mae'r rhan fwyaf o'r wardiau'n derbyn bwyd mewn cyflwr rhesymol, ond mae'r trefniadau ar gyfer cludo bwyd yn amrywio ar draws y Bwrdd Iechyd ac mae lle i wella profiad cleifion;
- yn gyffredinol mae rheolwyr wardiau'n canolbwyntio'n glir ar yr angen i sicrhau cymorth priodol o ran arlwyo a maeth, er bod perfformiad yn amrywio ac ni chofnodwyd rhai agweddau ar statws maethol cleifion; ac
- mae barn cleifion ar fwyd ysbyty a'r gwasanaethau arlwyo'n cael ei gasglu mewn sawl ffordd ac mae yna le i wneud y gweithgareddau hyn yn fwy cyson ac i rannu'r canlyniadau'n fwy eang.

11. Wrth ffurfio’r casgliadau hyn, nodwyd bod y gwasanaeth arlwyo a’r ffordd y mae Bwrdd Iechyd yn darparu ei wasanaethau yn cynnwys nifer o gryfderau allweddol. Mae’r rhain yn cynnwys:

- arweiniad proffesiynol a rheolaethol cryf gan y Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau i Gleifion (DNMPS) ar faterion maeth ac arlwyo;
- camau gweithredu pendant gan Reolwr Arlwyo dros dro'r Bwrdd Iechyd o ran mynd i’r afael â’r heriau a’r materion sydd wedi codi ers ei phenodi, yn arbennig yn Ysbyty Maelor Wrecsam;
- ymrwymiad clir gan bob grŵp proffesiynol, ar bob lefel, i’r agenda maeth ac arlwyo;
- fframwaith sefydliadol i weithredu gwelliannau maeth ac arlwyo; a
- gweithgorau da ar lefel y gyfarwyddiaeth i nodi a gweithredu gwelliannau, e.e. cyfarfodydd prif nyrsys ward y gyfarwyddiaeth feddygol ar amser bwyd wedi’i ddiogelu.

12. Mae nifer o feysydd allweddol y gellid eu gwella gan gynnwys y canlynol:

- diffyg fframwaith cynllunio a busnes arlwyo cyson ar draws y Bwrdd Iechyd;
- rheoli’r gwasanaeth arlwyo, yr amgylchedd a’r cyfarpar yn Ysbyty Maelor Wrecsam;
- arafwch datblygiad o ran cynllunio bwydlenni a datblygu polisi;
- diffyg polisi cymhorthdal bwyd ar gyfer bwydydd nad ydynt ar gyfer cleifion;
- diffygion amrywiol yn y cyfarpar a’r prosesau a ddefnyddir i ddosbarthu bwyd cleifion i wardiau;
- anghysondebau mewn arferion amser bwyd wedi’i ddiogelu ar draws wardiau;
- y fformat a’r prosesau cofnodi ar gyfer gwybodaeth sy’n ymwneud â maeth cleifion yn y nodiadau nyrsio; a
- rhannu gwybodaeth rhwng grwpiau staff o fewn ysbytai ac mewn ysbytai gwahanol am faterion arlwyo a maeth.

13. Mae’r adroddiad manwl sy’n dilyn y crynodeb hwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am bob un o’r meysydd y bu’r archwilwyr yn edrych arnynt.

## Argymhellion

14. Mae nifer o argymhellion wedi codi o’r adolygiad hwn. Cânt eu rhestru isod.

| | |
|---|---|
| **Trefniadau rheoli a chynllunio strategol** | |
| A1 | Cryfhau trefniadau cynllunio ar gyfer arlwyo er mwyn sicrhau agenda glir a chyson ar gyfer y gwasanaeth arlwyo ar draws y Bwrdd Iechyd. |
| A2 | Sefydlu strwythurau cynllunio ar gyfer gwasanaethau arlwyo a maeth sy’n gyson ar draws y Bwrdd Iechyd. |
| A3 | Mynd i’r afael â materion rheoli a staffio’r gegin yn Ysbyty Maelor Wrecsam ar frys. |
| A4 | Lleihau’r amser a gymer i ddatblygu a sefydlu prosesau arlwyo a maeth newydd. |
| A5 | Gwella trefniadau craffu’r Bwrdd ar gyfer monitro risgiau a pherfformiad arlwyo a maeth. |
| **Caffael, cynhyrchu a rheoli costau** | |
| A6 | Cyflwyno polisi cymhorthdal clir i bennu’r fframwaith ar gyfer cyflenwi gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion. |
| A7 | Datblygu trefniadau cyfeirlyfr cyson ar draws y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau bod digon o wybodaeth gadarn am fusnes arlwyo ar gael. |
| A8 | Gwella’r trefniadau cyfredol ar gyfer monitro gwastraff bwyd fel eu bod yn rhoi adlewyrchiad cywir o effeithlonrwydd cynhyrchu ac yn helpu i nodi’r cyfleoedd i wella’r systemau presennol. |
| **Dosbarthu bwyd i’r ward** | |
| A9 | Mynd i’r afael â’r diffygion a nodwyd yn yr adroddiad hwn ynglŷn â safon a dosbarthu bwyd sy’n effeithio ar ansawdd y bwyd a gaiff cleifion yn Ysbyty Maelor Wrecsam. |
| A10 | Mynd i’r afael â’r gwendidau a nodwyd yn yr amgylchedd arlwyo yn Ysbyty Maelor Wrecsam ar frys. |
| A11 | Gwella’r trefniadau ar gyfer dosbarthu bwyd i wardiau er mwyn sicrhau bod tymheredd y bwyd yn cael ei gadw ar y lefelau priodol. |
| A12 | Datgomisiynu’r trolis plastig llwyd budr sydd wedi’u difrodi a ddefnyddir gan yr adran arlwyo i gludo mân nwyddau arlwyo yn Ysbyty Maelor Wrecsam. |
| A13 | Cyflwyno amserau bwyd wedi’u diogelu ar gyfer pob amser bwyd yn yr holl wardiau priodol er mwyn efelychu’r dull a fabwysiadwyd yn y wardiau gorau. |
| A14 | Atgyfnerthu’r angen i lanhau dwylo cleifion. |
| A15 | Cynnwys maeth sylfaenol yn y rhaglen hyfforddi ar gyfer staff arlwyo ar y ward er mwyn gwella eu hymwybyddiaeth o’i bwysigrwydd a’r angen i ddilyn gweithdrefnau’r ward. |

| Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad | |
|---|---|
| A16 | Atgyfnerthu'r angen i fesur pwysau a thaldra cleifion er mwyn cyfrifo Mynegai Màs y Corff (BMI) cysylltiedig cleifion. |
| A17 | Gwella fformat a'r mathau o wybodaeth sy'n ymwneud â maeth a gofnodir yn y nodiadau nyrsio i gleifion. |
| A18 | Datblygu dulliau ymarferol i gynorthwyo'r gwaith o gwblhau siartiau cofnod bwyd a siartiau mewnbwn/allbwn hylif yn rheolaidd. |
| **Casglu barn cleifion a rhannu gwybodaeth** | |
| A19 | Cyflwyno trefniadau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth am farn cleifion ar y gwasanaeth rhwng rheolwyr wardiau a'r gwasanaeth arlwyo. |
| A20 | Cynnwys cleifion yn llawn wrth ddatblygu'r gwasanaeth arlwyo, gan ddatblygu'r profiadau cadarnhaol diweddar o gynnwys cleifion. |

## Trefniadau rheoli a chynllunio strategol

15. Nid oes fframwaith cynllunio strategol ar waith ac nid yw gwaith craffu'r Bwrdd ar risgiau a heriau cysylltiedig mor gryf ag y gallai fod. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Nid oes strategaeth ar waith ar gyfer y gwasanaeth arlwyo eto, er bod Rheolwr Arlwyo dros dro'r Bwrdd Iechyd wrthi'n gweithio i nodi materion arlwyo ddylai gael blaenoriaeth ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Mae gwaith ar droed i ddatblygu un polisi maeth ar gyfer y Bwrdd Iechyd a fydd yn disodli'r tri pholisi ardal sydd ar waith ar hyn o bryd.
- Yn gyffredinol, mae staff arlwyo, dietegwyr a chlinigwyr yn cael eu cynnwys yn y prosesau arlwyo, ond nid yw strwythurau cynllunio arlwyo lleol yn gwbl gyson ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Mae trefniadau cynllunio bwydlenni yn gadarn ar y cyfan, er bod prosesau dylunio bwydlenni'n wahanol ar draws y Bwrdd Iechyd ac yn rhy hir ym marn llawer o'r staff.
- Mae yna le i wella cysondeb darpariaeth bwyd ar draws y Bwrdd Iechyd er mwyn helpu i leihau costau a gwella'r ansawdd.
- Mae yna gyfle i wella'r wybodaeth y mae'r Bwrdd yn ei derbyn am berfformiad y gwasanaethau arlwyo fel y gellir craffu yn fwy cadarn ar risgiau a heriau.

16. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad.

**Tabl 1: Trefniadau rheoli a chynllunio strategol**

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Cynllunio gwasanaeth** | | |
| Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaethau a pholisïau clir ar arlwyo a maeth. | ✘ | Nid oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth arlwyo ac nid oedd unrhyw strategaethau lleol gan yr ymddiriedolaethau a oedd yn bodoli ynghynt, ac eithrio Ysbyty Glan Clwyd.<br>Bu Rheolwr Arlwyo dros dro'r Bwrdd Iechyd fawr o dro cyn nodi problemau sylfaenol gyda'r gwasanaeth arlwyo yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Bu'n rhaid neilltuo cryn dipyn o amser i fynd i'r afael â'r diffygion sylweddol sydd yno.<br>Mae'r Rheolwr Arlwyo yn Ysbyty Glan Clwyd wedi gweithio'n ddiwyd gyda Rheolwr Arlwyo dros dro'r Bwrdd Iechyd, ac maent wedi dechrau ystyried yr agenda sefydliadol ar gyfer arlwyo. Maent hefyd wedi cytuno ar rai datrysiadau dros dro ar gyfer y problemau rheoli yn y gwasanaeth arlwyo yn Ysbyty Maelor Wrecsam.<br>Nawr, mae angen strategaeth arlwyo gorfforaethol glir i helpu i gyflawni'r newidiadau penodol sydd angen eu gwneud yn Ysbyty Maelor Wrecsam, a heriau eraill i'r gwasanaeth arlwyo ar draws y Bwrdd Iechyd.<br>Mae gwaith ar droed i ddatblygu un polisi maeth a fydd yn berthnasol i'r Bwrdd Iechyd gyfan. Bydd hwn yn cynnwys y polisïau cyfredol o'r cyn ymddiriedolaethau yn y Gogledd. Mae'n hanfodol hefyd bod strategaeth arlwyo'n cael ei sefydlu er mwyn gallu gweithredu strategaeth faeth effeithiol. |
| Mae cynllun y fwydlen yn adlewyrchu'r strategaeth a'r polisi. | ✓/✘ | Mae'r bwydlenni'n cael eu cynllunio o fewn ardaloedd ac mae'n adlewyrchu'r polisi maeth sy'n bodoli eisoes yn yr ardal honno. Nid oes gan rai ardaloedd strategaeth arlwyo (gweler y sylwadau uchod).<br>Mae'r bwydlenni'n parhau i fod yn benodol i'r rhannau o'r Bwrdd Iechyd y datblygwyd hwy ynddynt.<br>Bydd y Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa i ddatblygu dull cyson o gynllunio bwydlenni pan fydd wedi sefydlu un polisi maeth a strategaeth weithredol ar gyfer arlwyo. |
| Mae deietegwyr a chlinigwyr yn cyfrannu'n llawn at y gwaith o ddatblygu polisi a strategaeth a chynllunio bwydlenni. | ✓ | Mae pob bwydlen, ei helfennau a'i chynhwysion wedi'i hasesu'n ddietegol a'i dilysu gan ddietegwyr a chlinigwyr eraill. Yn yr ardaloedd Canolog a Dwyreiniol, mae unrhyw newidiadau wedi'u goruchwylio gan y grwpiau gweithredu lleol sefydlog. Nid oes gan ardal y Gorllewin grŵp tebyg i'r grŵp gweithredu, ond credir y dylid sefydlu un i helpu i gwblhau trefniadau'r Bwrdd Iechyd.<br>Yn draddodiadol, gwasanaethau arlwyo yr ardaloedd Gorllewinol a Chanolog sydd wedi arwain y gwaith o gynllunio bwydlenni, tra bo'r Gwasanaeth Dieteteg yn arwain y prosesau hyn yn yr ardaloedd Dwyreiniol.<br>Waeth beth fo'r trefniadau lleol, nododd staff ym mhob ardal bod y prosesau ar gyfer datblygu a newid bwydlenni'n cymryd llawer gormod o amser (dwy flynedd mewn un achos). Cydnabyddir y gallai dull gweithredu 'gorchwyl a gorffen' helpu i gyflymu newidiadau yn y dyfodol. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae'r Strategaeth yn nodi'r dull mwyaf effeithlon a chost-effeithiol o gynhyrchu bwyd. | ✓ | Mae'r trefniadau ar gyfer cynhyrchu a dosbarthu bwyd yn amrywio o un ardal i'r llall.<br>Mae yna gymysgedd o opsiynau ar waith ar draws y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd. Bydd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cleifion newydd yn dechrau ar ei swydd ym mis Medi 2010, a bydd yn cynnal arfarniad opsiynau i'r Bwrdd Iechyd ar sail model coginio/oeri. |
| Tystiolaeth o gynllunio gweithlu yn ôl y galw am staff arlwyo. | ✓ | Mae gweithgareddau cynllunio gweithlu wedi'u cynnal i ryw raddau ac mae angen datblygu'r rhain fel rhan o ddull cyson ar draws y Bwrdd Iechyd. |
| **Trefniadau rheoli** | | |
| Mae atebolrwydd gweithredol dros arlwyo wedi'i nodi'n glir. | ✓ | Nodwyd yn glir mai'r DNMPS yw'r aelod o'r Bwrdd sy'n gyfrifol am faeth a'r gwasanaeth arlwyo.<br>Yn ôl y staff, mae'r trefniant hwn yn welliant ar drefniadau blaenorol. Yn yr Ymddiriedolaeth gyfun, ac o fewn yr ymddiriedolaethau a oedd yn bodoli ynghynt, rhannwyd y cyfrifoldeb am y materion hyn rhwng y Cyfarwyddwr Nyrsio a'r cyfarwyddwyr eraill. Roedd y math hwn o rannu yn gyffredin ledled Cymru.<br>Mae'r DNMPS yn canolbwyntio'n glir ar faeth fel elfen hanfodol o'r gofal a ddarperir gan staff nyrsio, ac mae'n ceisio cyflawni'r un safonau ledled y sefydliad. |
| Mae'r Bwrdd yn derbyn digon o wybodaeth am berfformiad ac ymarfer mewn perthynas ag arlwyo a maeth. | ✗ | Nid yw'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Bwrdd wedi amlygu ystod lawn y risgiau a'r problemau sy'n bodoli ar draws y gwasanaeth arlwyo. Yn benodol, er bod y trefniadau arlwyo yn Ysbyty Maelor Wrecsam wedi'u hamlygu fel mater o bryder, ni chyflwynwyd darlun llawn i fyny trwy'r strwythur rheoli.<br>Rydym yn cydnabod bod angen amser i sefydlu'r trefniadau rheoli newydd yn llawn. |
| Mae grŵp amlddisgyblaethol wedi'i sefydlu i oruchwylio'r modd y mae'r gwasanaeth arlwyo yn cael ei gyflawni. | ✓ | Mae'r is-bwyllgor Gwella Safonau Maeth ac Arlwyo (INCS) wedi'i sefydlu ac yn cyfarfod yn rheolaidd i ddarparu canolbwynt ar gyfer materion maeth ac arlwyo ar draws y Bwrdd Iechyd. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys goruchwylio'r gwaith o ddatblygu polisi maeth.<br>Mae gan yr ardaloedd Dwyreiniol a Chanolog Grwpiau Gweithredu Gwella Maeth ac Arlwyo hefyd er mwyn sicrhau sylw lleol i'r materion hyn. Maent yn adrodd i'r is-bwyllgor INCS.<br>Bwriedir sefydlu grŵp gweithredu lleol yn y Gorllewin.<br>Mae'r grwpiau cyfredol wedi cyfuno staff sy'n hollol ymroddedig i faterion maeth ac arlwyo.<br>Nid ydynt bob amser wedi gallu gweithredu newidiadau mor gyflym ag y dymunent. Gallai hyn ymwneud yn rhannol â chymhlethdod y prosesau sy'n sail i'r newid. Cafwyd canlyniadau cyflymach pan ddilynwyd prosesau gorchwyl a gorffen. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Penodwyd nyrs arwain i helpu i weithredu'r strategaeth a sicrhau arferion maeth da. | ✓ | Y DNMPS sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros arferion maethol, ac mae'n cael llawer o gymorth gan ddau nyrs clinigol sy'n arbenigo mewn maeth. Maent yn gwasanaethu ardaloedd Canolog a Dwyreiniol y Bwrdd Iechyd. Nid oes yna nyrs arbenigol ar gyfer maeth yn y Gorllewin eto. |
| Mae disgrifiadau swyddi ac ystod cyflogau i staff arlwyo wedi'u cysoni ledled y Bwrdd Iechyd. | ✓ | Cyflwynwyd yr Agenda ar gyfer Newid ym mhob ardal o'r ymddiriedolaethau a oedd yn bodoli cynt. Mae rhai anghysondebau'n parhau ac yn cael eu datrys ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid yw rheolwyr yn gwbl hyderus bod y prosesau hyn wedi darparu sail ar gyfer cysondeb ar draws y Bwrdd Iechyd. |
| Mae lefel absenoldebau oherwydd salwch ymhell o fewn y lefelau derbyniol ac yn cael eu rheoli'n dda. | ✓/✗ | Mae absenoldebau oherwydd salwch wedi'u rheoli'n fwy rhagweithiol yng ngwasanaethau arlwyo'r ardaloedd Gorllewinol a Chanolog.<br>Mae Rheolwr Arlwyo dros dro'r Bwrdd Iechyd wedi nodi lefelau uchel o absenoldebau yn Ysbyty Maelor Wrecsam. I raddau, gallai hyn adlewyrchu'r diwylliant sydd wedi parhau yn y gwasanaeth hwnnw ers rhai blynyddoedd. Cydnabyddir bod angen rheoli absenoldebau oherwydd salwch yn well yn Ysbyty Maelor Wrecsam. |

## Caffael, cynhyrchu a rheoli costau

17. Mae trefniadau caffael bwyd effeithiol a diogel ar waith er bod systemau cynhyrchu bwyd a rheoli costau yn amrywio, gan awgrymu bod potensial i sicrhau gwell cysondeb a gwella effeithlonrwydd. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
    - mae trefniadau caffael arlwyo'r Bwrdd Iechyd wedi'u rheoli'n dda ac mae trefniadau ar waith i sicrhau bod bwyd yn dod o ffynonellau diogel a dibynadwy;
    - nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ei bolisi cynaliadwyedd ei hun eto, gan ddibynnu yn lle hynny ar drefniadau contract cenedlaethol;
    - mae trefniadau cynhyrchu bwyd yn dibynnu'n helaeth ar systemau papur â llaw yn hytrach na dulliau TG;
    - yn wahanol i fyrddau iechyd eraill, nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu darparu gwybodaeth ariannol am ei holl wasanaeth arlwyo, sy'n awgrymu bod lle i wella'r trefniadau rheoli busnes;
    - mae'r gwaith o reoli costau yn seiliedig ar gyfriflyfrau'r ymddiriedolaethau a oedd yn bodoli cynt a gellid ei gryfhau trwy gyflwyno un cyfriflyfr, polisi prisio bwyd a pholisi cymhorthdal ar gyfer bwydydd nad ydynt ar gyfer cleifion;
    - mae gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn cael £370,000 o gymhorthdal o leiaf a gallai'r ffigur hwn fod yn llawer uwch;
    - er bod ceginau Ysbyty Maelor Wrecsam wedi derbyn gwobr arfer da ar ôl archwiliad diwethaf Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (EHO), mae'n harsylwadau ni a chanfyddiadau Rheolwr Arlwyo'r Bwrdd Iechyd yn awgrymu bod safonau wedi gostwng yn sylweddol; a

- mae yna systemau ar waith i fonitro gwastraff ac mae yna botensial i gryfhau'r rhain trwy ddatblygu dull mwy cyson o weithredu ac ehangu'r gwaith monitro i gynnwys bwyd heb ei fwyta.

18. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad:

**Tabl 2: Caffael, cynhyrchu a rheoli costau**

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Caffael** | | |
| Mae'r bwyd yn cael ei gaffael gan gyflenwyr a gymeradwywyd, yn unol â threfniadau a nodwyd yn Strategaeth Gaffael Cymru Gyfan y GIG. | ✓ | Mae'r rhan fwyaf o drefniadau caffael y Bwrdd Iechyd ar gyfer arlwyo yn defnyddio naill ai Cyflenwadau Iechyd Cymru (WHS), contractau Cymru Gyfan neu gontractau Cadwyn Gyflenwi'r GIG. Caiff rhai nwyddau eu prynu trwy gontractau Bwrdd Iechyd sy'n defnyddio cyflenwyr a gymeradwywyd.<br>Mae'r rheolwyr arlwyo wedi dechrau trafod sut gallent fanteisio ar y tair 'canolfan' arlwyo sydd gan weinyddiaeth y Bwrdd Iechyd ledled y Gogledd. Byddai'n rhaid ystyried datblygiadau fel rhan o strategaeth arlwyo i'r sefydliad.<br>Dangosodd y rheolwyr arlwyo fod ganddynt wybodaeth dda am y prosesau sydd eu hangen i sicrhau safonau cadarn wrth gyflenwi bwyd. |
| Mae trefniadau caffael cynaliadwy ar waith. | ✓ | Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu ei bolisi caffael diogel ei hun, er, mae'r cytundebau Cymru gyfan a'r WHS yn cwrdd â chanllaw Llywodraeth y Cynulliad. |
| Mae'r trefniadau caffael yn cefnogi'r gwaith o ddarparu'r bwydlenni a gynlluniwyd. | ✓ | Fel rheol, mae'r Bwrdd Iechyd yn caffael ar sail patrymau archebu hanesyddol. Mae rhywfaint o brynu'n cael ei wneud ymlaen llaw er mwyn sicrhau dilyniant yn y fwydlen am brisiau cystadleuol. |
| **Cynhyrchu** | | |
| Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu system arlwyo gyfrifiadurol i hwyluso'r gwaith o gynllunio a rheoli cynhyrchiant. | ✓/✗ | Caiff cardiau bwydlen eu cofnodi â llaw ar y systemau ar wahân a ddefnyddir ledled y sefydliad. Mae hyn yn cymryd llawer o amser ac yn ymglymu staff. |
| Mae cleifion yn archebu prydau lai na 24 awr ymlaen llaw. | ✓ | Mae systemau ychydig yn wahanol ar waith ar draws y Bwrdd Iechyd. Ym mhob achos, bydd cleifion yn archebu eu bwyd 24 awr ymlaen llaw. Er bod hyn yn arfer derbyniol, ni welwyd fod unrhyw le wedi gwella ar yr amser hwn rhwng archebu a derbyn bwyd. |
| Defnyddir bwydlenni safonol wedi'u costio er mwyn sicrhau cysondeb o ran ansawdd a chost. | ✓ | Mae pob cegin yn defnyddio ryseitiau safonol wedi'u costio ac a ddilyswyd yn ddeietegol. Mae goruchwylwyr ac weithiau dietegwyr yn monitro'r gwaith o gydymffurfio â'r ryseitiau. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae cynllun cynhyrchu ar waith i gyfeirio tasgau'r gegin. | ✓ | Mae'r broses gynhyrchu yn seiliedig ar faint o fwyd a gafodd ei ddewis o'r fwydlen flaenorol. Caiff rhai mathau o fwyd eu swmp-gynhyrchu, e.e. rhai llysiau. |
| Mae mesurau rheoli cyfrannau ar waith ac yn cael eu cefnogi gan hyfforddiant. | ✓ | Mae'r gwaith o rheoli dognau yn cael ei fonitro, drwy'r prosesau ansawdd a chan oruchwylwyr cynhyrchu. Fel y nodwyd uchod, ychydig iawn o oruchwylio sy'n cael ei wneud yng nghegin Ysbyty Maelor Wrecsam, sy'n bwrw amheuaeth ar allu'r gegin i sicrhau dognau o faint priodol. |
| Mae ansawdd bwyd yn cael ei fonitro ar gamau allweddol yn y broses gynhyrchu. | ✓/✗ | Mae gan y ceginau gwahanol ar draws safleoedd drefniadau monitro ansawdd effeithiol ar waith, gan gynnwys cogyddion sy'n blasu'r bwyd.<br>Fodd bynnag, credir bod y diffyg goruchwyliaeth yng nghegin Ysbyty Maelor Wrecsam wedi arwain at arferion gwael yn y gegin, e.e. barn gweithwyr proffesiynol eraill nad yw cynnwys maethol ryseitiau'n cael ei gynnal. |
| **Diogelwch bwyd** | | |
| Mae trefniadau cadarn ar waith i sicrhau diogelwch bwyd (ee archwilio tymheredd bwyd). | ✓/✗ | Mae cymysgedd o fathau gwahanol o wasanaeth ar y wardiau ar draws y Bwrdd Iechyd hy, hambyrddau neu swmp-weini.<br>Lle mae cyfarpar yn caniatáu, mae tymheredd trolïau yn cael ei atgyfnerthu cyn gadael y gegin, a gellir ei gynnal os oes angen trwy blygio'r troli i soced ar y ward. Mae trolïau Ysbyty Maelor Wrecsam yr un tymheredd â'r amgylchedd o'u cwmpas.<br>Cynhaliwyd ymarferion ansawdd bwyd gennym yn Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam, a chanfuwyd fod tymheredd bwyd poeth islaw'r tymheredd gofynnol o 63°C. |
| Mae polisi Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP) ar waith. | ✓ | Mae polisïau ar waith. |
| Mae'r cyfleusterau arlwyo yn cael eu harchwilio'n rheolaidd gan swyddogion iechyd yr amgylchedd lleol. | ✓ | Mae trefniadau arlwyo'r Bwrdd Iechyd yn cael eu harchwilio'n rheolaidd gan yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ardal y Bwrdd Iechyd.<br>Pe bai cynghorau yn trafod a chydweithio ar archwiliadau, efallai y byddai hyn yn helpu'r Bwrdd Iechyd i sefydlu safbwynt mwy cyson.<br>Er i geginau Ysbyty Maelor Wrecsam dderbyn gwobr arfer da ar ôl yr archwiliad diwethaf, mae ein harsylwadau ni a chanfyddiadau Rheolwr Arlwyo'r Bwrdd Iechyd yn awgrymu bod y safonau wedi gostwng yn sylweddol. |
| Rhoi camau ar waith mewn ymateb i argymhellion Swyddog Iechyd yr Amgylchedd. | ✓/✗ | Y rheolwr arlwyo perthnasol sy'n gyfrifol ac ymddengys fod camau wedi'u cymryd. Fodd bynnag, nid oedd adroddiadau Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn cael eu cofnodi a'u monitro fel rhan o'r trefniadau risg a llywodraethu corfforaethol. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Rheoli costau** | | |
| Mae system arlwyo gyfrifiadurol ar waith i gefnogi'r gwaith o reoli a monitro'r gwasanaeth. | ✗ | Nid oes system ar waith. |
| Mae cost y gwasanaeth arlwyo yn wybyddus ac yn cael ei monitro. | ✓/✗ | Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu darparu gwybodaeth ariannol gadarn am yr elfennau gwahanol o'i wasanaeth arlwyo yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Cyffredinol Llandudno. Mae hyn yn anarferol ac nid yw'n adlewyrchu'r sefyllfa mewn byrddau iechyd eraill nac argymhellion ein hadroddiad yn 2001-02.<br>Serch hynny, mae yna waith monitro ariannol yn cael ei gynnal ar draws y Bwrdd Iechyd a chwblhawyd y ffurflenni diweddar gan Reolwr Arlwyo Ysbyty Glan Clwyd ar gyfer y Bwrdd Iechyd cyfan.<br>Mae tua 60 y cant o'r costau'n cael eu rheoli ar wahân. Mae rhai elfennau fel yr oriau a dreulir yn coginio bwyd i gleifion/pobl nad ydynt yn staff yn anoddach i'w mesur.<br>Mewn egwyddor, mae yna ddwy gyllideb wahanol ar gyfer costau arlwyo staff a chleifion, er bod hyn yn anodd ei gadarnhau.<br>Mae'r prosesau costio'n amrywio ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd. Er enghraifft, caiff costau rheoli eu hepgor o'r gyllideb arlwyo yn y Gorllewin, ond mae'r elfen hon yn cael ei chynnwys yn y gyllideb mewn rhannau eraill o'r Bwrdd Iechyd.<br>Mae'r Adran Gyllid wrthi'n datblygu dull cyson o gofnodi a monitro costau arlwyo ar draws y Bwrdd Iechyd. |
| Mae systemau archebu effeithiol a hyblyg ar waith rhwng y wardiau a'r adran arlwyo. | ✓ | Mae systemau archebu yn seiliedig ar y bwydlenni neu'r rhestri sy'n cael eu dychwelyd o'r wardiau. Mae'r bwyd a gynhyrchir yn cael ei lywio gan y wybodaeth hon, ynghyd â gwybodaeth hanesyddol yn deillio o gynhyrchu yn y gorffennol. |
| Mae gwastraff bwyd ar wardiau'n cael ei fonitro o ran:<br>• Prydau bwyd heb eu gweini<br>• Bwyd heb ei fwyta | ✓/✗ | Cofnodir prydau bwyd heb eu gweini pan gaiff troliau bwyd y ward eu dychwelyd i'r ceginau. Mae'r broses hon yn cael ei diwygio ar hyn o bryd ac efallai bod cyfle yma i rannu arfer gorau ar draws y Bwrdd Iechyd.<br>Ni chaiff bwyd heb ei fwyta ei fonitro. |
| Mae yna ddull penodedig o sicrhau cymhorthdal/cyfraniad am wasanaethau nad ydynt ar gyfer cleifion. | ✗ | Nid oes polisi cymorthdalu swyddogol ar waith. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae incwm ystafell fwyta'r staff yn llai na'r gwariant.<br>Dylid llunio polisi i esbonio'r disgwyliadau a'r amcanion o ran lefelau incwm derbyniol. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae yna bolisi i brisio prydau nad ydynt ar gyfer cleifion. | ✓ | Mae prisiau'n amrywio ar draws y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd. Mae Rheolwr Arlwyo dros dro'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cysoni'r prisiau erbyn 2011, gyda'r bwriad o gael prisiau i gyd-fynd â'r pris uchaf cyfredol.<br>Yn hanesyddol, cyflwynwyd cynnydd canrannol bob blwyddyn heb effeithio ar y gost wirioneddol. |
| Mae gwastraff yr ystafell fwyta'n cael ei fonitro. | ✓ | Mae dognau'r prif gwrs yn cael eu monitro ar ddiwedd pob cyfnod o weini'r prif gwrs.<br>Efallai fod lle i wella o ran rheoli a monitro dognau'n fwy effeithiol. |


19. Mae ein dadansoddiad o berfformiad ariannol y gwasanaeth arlwyo yn 2008-09 (Ffigur 2) wedi dangos bod cyfanswm costau'r gwasanaeth yn is na chostau cyfartalog Cymru.
20. Mae cost prydau bwyd cleifion yn amrywio rhwng y gwahanol safleoedd, yn bennaf oherwydd y costau staffio uwch yn Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Gwynedd, er bod cost gyffredinol y gwasanaeth i gleifion yn is na chyfartaledd Cymru.
21. Dim ond dau o'r ysbytai oedd yn gallu darparu dadansoddiad o'u gwariant ar y rhai nad ydynt yn gleifion, sy'n dangos bod y rhan hon o'r gwasanaeth yn cael cymhorthdal o £370,000. Pe bai'r perfformiad hwn yn cael ei ailadrodd ar draws y Bwrdd Iechyd gallai'r ffigur hwn fod yn fwy na £500,000. Awgryma'r diffyg gwybodaeth yn y maes hwn nad yw'r rhan hon o'r gwasanaeth yn cael ei rheoli'n effeithiol.
22. Ceir dadansoddiad manylach o gostau'r ddau ysbyty yn Atodiad 2.

**Ffigur 2: Dadansoddiad o gostau'r gwasanaeth**

| Dadansoddiad | Cyfanswm cost fesul diwrnod claf (£) | Costau cleifion fesul diwrnod claf (£) | Sefyllfa fasnachu'r gwasanaeth i rai nad ydynt yn gleifion (£) |
|---|---|---|---|
| Ysbyty Gwynedd | Dim ar gael | 9.34 | |
| Ysbyty Cyffredinol Llandudno | Dim ar gael | 7.54 | |
| Ysbyty Glan Clwyd | 9.86 | 8.55 | -264,000 |
| Ysbyty Maelor Wrecsam | 7.06 | 6.58 | -106,000 |
| Gwasanaeth wedi'i gyfuno | 8.39 | 7.51 | -370,000 (ffigur rhannol) |
| Cymru | 11.08 | 10.04 | |


*Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Swyddfa Archwilio Cymru*

**Ffigur 3: Cost net y gwasanaeth arlwyo fesul diwrnod claf**





*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

**Ffigur 4: Dosbarthiad gwariant costau arlwyo i gleifion**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*


**Ffigur 5: Costau cymharol y gwasanaeth i gleifion**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

**Ffigur 6: Cyfanswm cost arlwyo i gleifion fesul diwrnod claf 2008-09 yn ôl y dull o goginio a chyflenwi**

***SAW= staff arlwyo ar wardiau***




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

23. Roedd ein hadolygiad yn cynnwys archwiliad arsylwi ar wastraff bwyd o brydau bwyd heb eu gweini a gwastraff ar blatiau. Mesurwyd gwastraff ar blatiau drwy wrthdroi canllawiau dogfennau asesu maeth yn *Siart Cofnodi Bwyd Cymru Gyfan*. Er enghraifft, byddai pryd o fwyd y cofnodwyd bod 75 y cant ohono wedi'i fwyta at ddibenion monitro maeth yn cyfateb i wastraff o 25 y cant ar blatiau. Hefyd, dim ond os oedd y gwastraff ar blatiau yn cynnwys y brif elfen brotein ddrutach yn hytrach na dim ond llysiau y defnyddiwyd y mesur hwn. Er nad yw'r dull hwn mor gadarn â'r dull dadansoddi pwysau bwyd, mae'n cynnig ffordd ddigon cyflym a sensitif o ganfod problemau.

24. Yn gyffredinol, roedd lefelau gwastraff bwyd heb ei weini o dan 10 y cant, sy'n awgrymu bod y trefniadau'n cael eu rheoli'n dda. Gallai lleihau'r lefelau hyn i lefelau'r ysbytai sy'n perfformio orau arbed £56,000 y flwyddyn.

25. Yn yr asesiad o fwyd heb ei fwyta, roedd y lefelau'n sylweddol uwch a phe bai'r lefel hwn o wastraff yn gostwng 10 y cant gallai'r Bwrdd Iechyd arbed £188,000 y flwyddyn.

26. Gall y rhesymau pam nad yw cleifion yn bwyta'u pryd bwyd fod yn gymhleth, megis newid sydyn mewn archwaeth oherwydd eu cyflwr. Mae rhesymau eraill yn ymwneud ag ansawdd y bwyd a chyfathrebu gwael rhwng wardiau ac adrannau arlwyo. Roedd sylwadau staff a chleifion yn awgrymu nad yw maint dognau yn gywir bob amser

**Ffigur 7: Lefelau gwastraff prydau bwyd gan gynnwys rhagfynegiad o arbedion**

| Ward | Prydau heb eu gweini | Gwastraff ar blatiau | Cyfanswm gwastraff | Arbedion effeithlonrwydd posibl o brydau heb eu gweini (targed 5%) | Arbedion effeithlonrwydd posibl o wastraff ar blatiau (targed o 10%) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysbyty Gwynedd – Dulas | 16% | 22% | 38% | | |
| Ysbyty Gwynedd – Prysor | 8% | 54% | 62% | | |
| Ysbyty Gwynedd – Tryfan | 6% | 12% | 18% | | |
| Ysbyty Cyffredinol Llandudno - Marl | 5% | 12% | 17% | | |
| Ysbyty Cyffredinol Llandudno – Llewellyn | 5% | 8% | 13% | | |
| Ysbyty Glan Clwyd – Wd 2 | 13% | 25% | 38% | | |
| Ysbyty Glan Clwyd – Wd 8 | 9% | 10% | 19% | | |
| Ysbyty Glan Clwyd – UFA | 3% | 9% | 12% | | |
| Ysbyty Maelor Wrecsam– Derwen | | 34% | 34% | | |
| Ysbyty Maelor Wrecsam – Evington | 11% | 23% | 34% | | |
| Ysbyty Maelor Wrecsam – Fleming | 8% | 15% | 23% | | |
| **Cyfanswm** | **8%** | **20%** | **28%** | **£56,630** | **£188,770** |

*Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Swyddfa Archwilio Cymru*

## Dosbarthu bwyd i'r ward

27. Mae'r rhan fwyaf o'r wardiau'n derbyn bwyd mewn cyflwr rhesymol er bod lle i wella'r ffordd o ddosbarthu bwyd i rai wardiau a gwella profiad cleifion trwy wneud hynny. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Roedd bwyd yn cyrraedd y ward mewn cyflwr eithaf da ond ddim bob tro ar yr amser y cytunwyd arno. Golygai hyn nad oedd staff y ward bob amser yn barod i dderbyn a gweini'r bwyd.
- Roedd cyflwr y ceginau yn Ysbyty Maelor Wrecsam yn achosi pryder sylweddol yn ystod ein gwaith maes.
- Mae'r troliau bwyd yn Ysbyty Maelor Wrecsam yn 25 oed a dim ond yn cadw'r bwyd ar yr un tymheredd â'r amgylchedd o'u cwmpas, sydd ddim yn arfer gorau.
- Dywed y staff arlwyo bod problemau gyda threfniadau cludo yn gallu amharu ar ansawdd y bwyd oherwydd yr amser a gymer i gludo'r bwyd o'r gegin i'r ward.
- Nid oes digon o sylw'n cael ei roi i baratoi'r cleifion ac amgylchedd y ward cyn amserau bwyd.
- Yn gyffredinol yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Glan Clwyd, roedd yr opsiynau bwyd safonol a werthuswyd yn ystod yr adolygiad hwn wedi'u cyflwyno'n dda ac yn edrych yn flasus, ond nid oedd tymheredd bwyd pob ysbyty'n cyrraedd y tymheredd gofynnol.
- Yn Ysbyty Maelor Wrecsam, nid oedd yr opsiynau bwyd safonol a werthuswyd yn ystod yr adolygiad hwn wedi'u cyflwyno cystal â mannau eraill o'r Bwrdd Iechyd nac yn edrych mor flasus.
- Yn gyffredinol, roedd cleifion yn derbyn y bwyd roeddent wedi'i archebu ar eu cardiau bwydlen.
- Lle mae systemau bwyd swmp ar waith roedd staff yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd y mae hyn yn ei roi iddynt i ymateb i archwaeth cleifion pan gaiff y bwyd ei weini.
- Ar ychydig o wardiau nid yw cleifion yn cael cerdyn bwydlen i ddewis eu bwyd. Mae yna dystiolaeth sy'n awgrymu bod staff yn dewis bwyd i gleifion ar adegau.
- Yn aml, nid oedd rheolwyr wardiau'n gwybod yn union pa aelodau o staff oedd wedi cael hyfforddiant ar gyflwyno bwyd, na'n ymwybodol o ddarpariaeth hyfforddiant hylendid bwyd a sesiynau dilynol.

28. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad.

**Tabl 3: Dosbarthu bwyd i'r ward a'r claf**

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae'r bwyd yn cyrraedd y ward ar yr amser cywir. | ✓ | Yn gyffredinol, dechreuai'r gwaith o weini'r prydau bwyd a welwyd ar draws y Bwrdd Iechyd ar yr amser a drefnwyd. Fodd bynnag, nododd staff fod yna achosion lle mae bwyd yn cyrraedd yn hwyr neu'n gynnar a gall hyn gael effaith andwyol ar ansawdd y bwyd a ddarperir.<br>Pan gynhaliwyd yr adolygiad, gwelwyd porthorion Ysbyty Maelor Wrecsam yn cludo mwy na dau droli o'r gegin i'r wardiau, sy'n fwy na'r trefniant lleol y cytunwyd arno. Mae'r trefniant yn bodoli am fod y troliau bwyd ond yn gallu cadw'r bwyd ar dymheredd yr amgylchedd o'u cwmpas. Yn ogystal â hyn, mae'r teithiau i rai wardiau'n cymryd cryn dipyn o amser.<br>Mae Ysbyty Gwynedd wedi cyflwyno system yn ddiweddar sy'n gofyn i borthorion sicrhau llofnod ac amser gan staff wardiau pan fyddant yn cyrraedd y ward gyda'r troli bwyd. Diben hyn yw cyflymu'r amser a gymer i ddosbarthu bwyd i wardiau trwy fonitro faint o amser mae'n cymryd i borthorion fynd o'r gegin i'r wardiau. Dylid ystyried gweithredu'r dull hwn mewn mannau eraill o'r Bwrdd Iechyd.<br>Roedd y staff arlwyo'n credu bod gwendidau yn y prosesau porthorion yn gallu cael effaith andwyol ar ansawdd y bwyd a bod hyn yn cyflwyno darlun annheg o'r gwasanaeth arlwyo. Roedd rhai aelodau o'r staff arlwyo'n credu bod modd gwella'r system ddosbarthu bwyd trwy roi'r cyfrifoldeb o fynd â'r troliau i'r wardiau iddynt hwy. |
| Mae'r bwyd yn cyrraedd y ward mewn cyflwr da (ee ar y tymheredd cywir). | ✓/✗ | Gwelwyd fod bwyd Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Glan Clwyd yn cael ei gyflwyno'n dda ac yn edrych yn flasus, ond nid oedd tymheredd y bwyd yn cyrraedd y gofynion statudol.<br>Nid oedd y bwyd yn Ysbyty Maelor Wrecsam wedi'i gyflwyno gystal nac yn edrych mor flasus, ac nid oedd y tymheredd yn cyrraedd y gofynion statudol.<br>Fel y nodwyd uchod, mae'r troliau bwyd yn Ysbyty Maelor Wrecsam ond yn cadw bwyd ar dymheredd yr amgylchedd o'u cwmpas. Mae'r rheolwr arlwyo dros dro'n bwriadu cyflwyno achos busnes i gael troliau newydd.<br>Roedd cyflwr y ceginau yn Ysbyty Maelor Wrecsam yn achosi pryder sylweddol yn ystod ein gwaith maes. Er enghraifft, sylwodd Rheolwr Arlwyo dros dro'r Bwrdd Iechyd ar y problemau canlynol pan ddaeth i'r swydd:<br>• cyfleusterau cegin sy'n anodd eu glanhau, e.e. yr ardal golchi sosbannau;<br>• problemau lleithder mewn rhannau amrywiol o'r gegin, sy'n gwneud hi'n ofynnol i ailaddurno'n gyson (nid yw'n cael ei gwblhau bob amser);<br>• cyfarpar a systemau cegin a allai amharu ar ddosbarthu bwyd diogel sydd o ansawdd derbyniol ee, gallai'r ffaith bod llestri glân a budr yn croesi'i gilydd achosi traws-halogiad; diffyg biniau ac ati;<br>• grwpiau gwahanol o staff yn dod i mewn i'r ceginau heb |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| | | wisgo dillad priodol, a allai arwain at drosglwyddo heintiau o'r wardiau;<br>• rhai cyfarpar y bu'n rhaid cael gwared â hwy, ac mae angen cael gwared â rhai eitemau o hyd; a<br>• diffyg balchder ymysg staff am yr amgylchedd ee roedd gwaith wedi'i wneud i dynnu sinc o'r brif gegin bythefnos cyn ein hymweliad maes, ond roedd llwch adeiladu'n parhau i fod ar y llawr ac roedd yna wal deils wedi'i gorchuddio â baw.<br>Gallai'r materion hyn effeithio ar gyflwr y bwyd a ddarperir a rhaid mynd i'r afael â'r rhain ar frys. |
| Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod cleifion yn derbyn y pryd cywir. | ✓ | Mae yna systemau cynllun gwelyau arlwyo ar waith ym mhob ysbyty er eu bod yn dilyn trefn wahanol. Gellid rhannu'r dulliau a'r dysgu er mwyn hwyluso gwelliannau.<br>Nid yw cleifion yn derbyn cardiau bwydlen ar ychydig o wardiau, ac roedd tystiolaeth yn awgrymu bod staff yn dewis bwyd i gleifion.<br>Yn gyffredinol, mae dietegwyr, staff wardiau a staff arlwyo'n cyfathrebu'n dda â'i gilydd ynghylch gofynion cleifion unigol.<br>Pan fo bwyd yn cael ei swmp-ddosbarthu, roedd staff yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd roedd hyn yn ei roi o ran gallu ymateb i archwaeth cleifion pan fydd bwyd yn cael ei weini. |
| Mae staff penodedig (staff gweini, staff cadw tŷ neu arlwywyr ar y ward) ar gael i helpu i weini'r prydau. | ✓ | Mae'r trefniadau'n amrywio ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r mwyafrif o wardiau'n dibynnu ar gynorthwywyr gofal iechyd a nyrsys hyfforddedig i weini prydau bwyd. Mae gan rai wardiau staff arlwyo ar y ward.<br>Yn Ysbyty Glan Clwyd, maent wedi treialu swyddi staff gweini ar y ward. Mae cryn dipyn wedi'i ddysgu o'r broses dreialu ac mae'r fenter hon wedi'i chroesawu ar lefel ward. Gobeithir cyflwyno'r swyddi hyn ar draws y Bwrdd Iechyd erbyn mis Mawrth 2011. |
| Mae staff sy'n rhan o'r gwaith o weini bwyd wedi cael hyfforddiant ar sut i gyflwyno bwyd. | ✓/✗ | Mae cyflwyno bwyd sylfaenol yn rhan o hyfforddiant rhai aelodau o'r staff. Yn gyffredinol, nid oedd rheolwyr wardiau'n siŵr a oedd pob aelod o staff a oedd yn ymwneud â darparu bwyd i gleifion wedi derbyn hyfforddiant o'r fath. |
| Mae staff sy'n rhan o'r gwaith o weini bwyd wedi cael hyfforddiant hylendid bwyd. | ✓/✗ | Mewn egwyddor, dylai pob aelod o staff sy'n ymwneud â gweini bwyd gael hyfforddiant sylfaenol ar hylendid bwyd. Fodd bynnag, nid oedd rheolwyr wardiau bob amser yn siŵr faint o hyfforddiant ffurfiol roedd grwpiau staff amrywiol wedi'i dderbyn. Roedd yna ansicrwydd cyffredinol hefyd ar y wardiau a oedd y sesiynau dilynol ar gael yn rheolaidd ar ôl hyfforddiant ar hylendid bwyd. |
| Mae mannau cleifion yn cael eu paratoi i dderbyn prydau bwyd. | ✓/✗ | Wrth arsylwi ar y wardiau, gwelsom fod paratoadau'n cael eu gwneud fel arfer pan fyddai aelod o staff yn dod â'r bwyd i'r claf.<br>Yn ddelfrydol, dylai gweithgareddau paratoi gael eu gwneud cyn i'r bwyd gyrraedd, yn rhannol er mwyn dangos pwysigrwydd y pryd bwyd i ddod. Yn ymarferol, roedd eitemau'r cleifion yn cael eu rhoi o'r neilltu ag un llaw yn aml a'r hambwrdd bwyd yn cael ei gario yn y llaw arall.<br>Yn gyffredinol, roedd cymhorthion i gynorthwyo cleifion i |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| | | fwyta (ee cyllyll a ffyrc arbennig, giardiau platiau) ar gael trwy wneud cais i'r adrannau therapi galwedigaethol. Nid oedd yn amlwg a oedd staff yn ddigon ymwybodol o anghenion cleifion yn hyn o beth. Nid oedd yn amlwg chwaith a oedd yr eitemau'n cael eu darparu'n gyflym wedi i'r cais gael ei wneud. |
| Mae cleifion yn cael cyfle i olchi eu dwylo cyn bwyta. | ✘ | Ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd o'r staff yn annog cleifion i olchi eu dwylo cyn bwyta.<br>Roedd hancesi dwylo gwlyb ar gael mewn rhai mannau, er ei bod hi'n ymddangos nad oeddynt yn cael eu defnyddio. Mewn un achos, nodwyd mai cyllideb y ward oedd yn talu amdanynt, a oedd yn awgrymu eu bod yn rhy ddrud i'w defnyddio. |
| Mae'r bwyd yn cael ei ddosbarthu i'r claf yn gyflym ac yn effeithlon. | ✓ | Roedd hyd y prydau bwyd a arsylwyd gennym yn amrywio, ond yn gyffredinol, cyflwynwyd hwy'n effeithlon ar ôl eu dechrau.<br>Ward Marl a Ward Llewellyn yn Ysbyty Cyffredinol Llandudno oedd y wardiau a gymerodd fwyaf o amser rhwng yr adeg y cyrhaeddodd y trolïau'r ward a'r adeg y gorffennwyd casglu'r hambyrddau wedi i'r cleifion orffen bwyta (1 awr 25 munud ac 1 awr 15 munud yn ôl eu trefn). Mae hyn yn annerbyniol o hir.<br>Ar un ward, cyrhaeddodd y troli yn gynt na'r disgwyl ac nid oedd staff y ward yn barod i ddechrau'r pryd bwyd. Gwelwyd dau achlysur lle aeth 20 munud heibio rhwng yr adeg y cyrhaeddodd y troli'r ward a'r adeg y dechreuwyd gweini'r bwyd. Nid yw hyn yn arfer gorau.<br>Gwelwyd un o'r achlysuron hyn ar ward yn Ysbyty Maelor Wrecsam lle gallai effaith unrhyw oedi ar ansawdd y bwyd fod dipyn gwaeth gan fod y trolïau ond yn cadw'r bwyd ar dymheredd yr amgylchedd o'u cwmpas. |

29. Dylai adrannau arlwyo fod yn cynhyrchu prydau bwyd o ansawdd uchel i gleifion a dylai'r pryd gadw ei ansawdd wrth gael ei weini i glaf. Mae hyn yn golygu darparu digon o ddewis ar y fwydlen, a gweini prydau deniadol a blasus ar dymheredd addas. Dylid monitro ansawdd y seigiau'n barhaus er mwyn sicrhau bod safonau uchel yn cael eu cynnal a'u gwella.


30. Roedd ein hadolygiad yn cynnwys paneli profi bwyd yn Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam. Roedd y rhain yn cynnwys cyfuniadau amrywiol o archwilwyr, staff arlwyo, staff y wardiau, staff nyrsio arbenigol, staff deietegol, therapyddion lleferydd ac iaith, a chynrychiolwyr y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC). Trwy ddefnyddio system sgorio 1-5 syml, asesodd y panel y bwyd yn ôl:
    - ei dymheredd a'i olwg;
    - ei arogl, ei flas a'i ansawdd;
    - a gyrhaeddodd yr eitem gywir a archebodd y claf oddi ar y fwydlen; a
    - maint dogn cywir a archebwyd gan y claf.

**31.** Er y bydd dull o’r fath bob amser yn cynnwys rhywfaint o wrthrychedd, câi ei ddefnyddio yn yr un modd ym mhob un o sefydliadau’r GIG yr ymwelwyd â hwy. Mae’n gyfle, felly, i allu cymharu’n fras rhwng y gwahanol safleoedd yr ymwelwyd â hwy.

**32.** Mae uchafswm sgôr o 100 y cant yn bosibl pe bai’r holl feini prawf a brofwyd yn derbyn ‘gradd 5’. Y sgorau yn Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Glan Clwyd, ac Ysbyty Maelor Wrecsam oedd 88 y cant, 80 y cant, a 60 y cant yn eu trefn. Er nad yw sgorau Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Glan Clwyd yn peri llawer o ofid, sgôr Ysbyty Maelor Wrecsam oedd y sgôr isaf a gofnodwyd o holl ysbytai Cymru lle cynhaliwyd yr ymarferiad (Ffigur 8).

**33.** Roedd tymheredd yr opsiynau bwyd poeth ym mhob un o’r tri ysbyty yn is na’r tymheredd o 63°C a nodwyd yn y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.

**Ffigur 8: Cyfanswm sgoriau’r paneli ansawdd bwyd ysbyty**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

## Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad

**34.** Yn gyffredinol, mae rheolwyr wardiau’n canolbwyntio ar yr angen i sicrhau cymorth arlwyo a maeth priodol, er bod arferion yn amrywio rhwng wardiau ac ni chofnodwyd rhai agweddau ar statws maeth cleifion o gwbl. Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae cleifion yn cael eu sgrinio am broblemau maeth ar adeg eu derbyn trwy ddefnyddio offeryn sy’n gysylltiedig â MUST, er nad yw hyn yn digwydd mewn rhai mannau ee yr AMU yn Ysbyty Maelor Wrecsam;
- mae strwythur nodiadau nyrsio’n amrywio’n sylweddol ar draws y Bwrdd Iechyd;

- i ba raddau mae ysbytai'n cyfrif BMI cleifion;
- mae staff ar gael ar y wardiau i helpu cleifion i fwyta, er nad yw'r arfer o gynnwys nyrsys hyfforddedig yn gyson;
- ar y cyfan, mae trefniadau arlwyo'r Bwrdd Iechyd yn darparu dewis ac yn ymateb yn effeithiol i ddiwallu anghenion yr unigolyn;
- nid yw cymeriant bwyd a hylif cleifion yn cael ei gofnodi bob amser ac nid yw siartiau cymeriant yn cael eu llofnodi bob amser gan nyrsys cofrestredig ar ddiwedd pob shifft; ac
- er bod rhai wardiau'n dilyn polisi'r Bwrdd Iechyd ar amser bwyd wedi'i ddiogelu yn dda iawn, ni chaiff hyn ei weithredu'n gyson mewn gwahanol wardiau ac ysbytai.

35. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad.

**Tabl 4: Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad**

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae cleifion yn cael eu pwyso a'u sgrinio am broblemau maeth o fewn 24 awr i gael eu derbyn, drwy ddefnyddio offeryn sgrinio maethol wedi'i ddilysu | ✓/✗ | Ar y wardiau yr ymwelwyd â hwy cafwyd darlun cymysg o ran pwyso cleifion a chyfrifo mesur BMI.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio dogfennau sy'n seiliedig ar yr offeryn MUST. Defnyddir gwahanol fersiynau o'r offeryn ledled y sefydliad. Nid yw pob claf yn cael ei sgrinio o fewn 24 awr.<br>Roedd y dogfennau nyrsio presennol wedi'u sefydlu i raddau helaeth gan yr ymddiriedolaethau a oedd yn bodoli eisoes. O ganlyniad, mae yna wahaniaethau sylweddol rhwng y fformatau a ddefnyddir ar draws y Bwrdd Iechyd.<br>Ac eithrio Ysbyty Maelor Wrecsam, cofnodir gwybodaeth sy'n ymwneud â maeth mewn sawl dogfen ar wahân yn y nodiadau nyrsio (a'r nodiadau meddygol).<br>Nid yw'r dull tameidiog hwn yn cynorthwyo'r staff wrth gofnodi ac adolygu statws maeth claf. Yn Ysbyty Maelor Wrecsam ceir dogfen dderbyn sy'n cyfuno'r rhan fwyaf o'r wybodaeth roedden ni'n edrych amdani yn y nodiadau.<br>Yn gyffredinol, nid yw statws iechyd y geg cleifion wedi'i gofnodi yn y nodiadau. Mae'r diffyg sylweddol hwn wedi'i gydnabod ers peth amser ac roedd yna gamau ar waith gan yr Ymddiriedolaeth flaenorol i ddatblygu fframwaith i fynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, nodwyd fod y fframwaith hwn wedi mynd ar goll.<br>Mae'r DNMPS yn mynd i'r afael â hyn ar hyn o bryd.<br>Ychydig o dystiolaeth oedd bod arferion bwyta arferol cleifion (ee, maint, hoff/cas bethau) yn cael eu cofnodi yn y nodiadau. |
| Lle bo'n briodol, mae cleifion yn cael eu hatgyfeirio at ddeietegydd, a/neu at therapydd lleferydd ac iaith. | ✓/✗ | Caiff cleifion sy'n cyrraedd trothwy asesu MUST eu hatgyfeirio. Mae'r trothwy hwn yn wahanol ar draws y gwahanol amrywiadau o'r offeryn MUST sydd ar waith ar draws y Bwrdd Iechyd. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae cynllun gofal maeth yn cael ei baratoi a'i weithredu ar sail sgôr risg maeth y claf. | ✓ | Sefydlir cynlluniau gofal i'r cleifion hynny sy'n bodloni'r meini prawf maeth perthnasol. |
| Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod y rhai sy'n gweini prydau'n ymwybodol o ofynion maeth penodol cleifion. | ✓ | Mae staff y wardiau'n dibynnu ar y cardiau bwydlen neu'r rhestr fwydlenni sy'n nodi anghenion maeth arbennig. Rhoddir symbolau uwchben gwelyau cleifion mewn rhai wardiau. |
| Mae dewis da o fwyd i gleifion ar y fwydlen. | ✓ | Mae'r fwydlen yn cylchdroi bob pedair wythnos, yn dibynnu ar yr ysbyty. Mae pob un yn darparu amrywiaeth o opsiynau ar gyfer pob cwrs. |
| Mae dewisiadau llysieuol ar y fwydlen. | ✓ | Mae dewis llysieuol ar gael fel arfer. |
| Mae'r fwydlen yn cynnwys dewisiadau i gleifion o gefndiroedd crefyddol/ethnig penodol. | ✓/✗ | Nodwyd mai ychydig iawn o alw oedd yna am fwyd i gleifion o gefndiroedd crefyddol a diwylliannol penodol. Yn gyffredinol, nododd y gwasanaethau arlwyo eu bod yn darparu bwyd priodol fesul achos. Dywedwyd bod rhoi dewis o fwyd i'r grwpiau cleifion hyn yn anodd. Mae'n bosibl y gellid gwella'r dewis i'r cleifion hyn trwy edrych ar y ddarpariaeth ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan. |
| Mae trefniadau ar waith ar gyfer amser bwyd wedi'i ddiogelu. | ✓ | Mae rhan fwyaf o wardiau'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno amser bwyd wedi'i ddiogelu, er nad yw'rAMU yn Ysbyty Gwynedd yn gweithredu amser bwyd ffurfiol wedi'i ddiogelu.<br>Roedd rheolwyr wardiau yn gefnogol tu hwnt o'r amser bwyd wedi'i ddiogelu. Maent yn cadw at yr amserau hyn yn gyffredinol, er bod arferion yn amrywio o un ward i'r llall.<br>Adroddodd y rhan fwyaf o reolwyr y wardiau fod cynnydd yn cael ei wneud o ran sicrhau nad yw rowndiau ward yn cael eu gwneud yn ystod amser bwyd wedi'i ddiogelu. Roedd Ysbyty Maelor Wrecsam wedi cael ychydig o broblemau wrth geisio sicrhau nad oedd fferyllwyr yn ymweld â'r wardiau yn ystod amserau bwyd.<br>Nid yw rowndiau meddyginiaethau yn cael eu hannog yn ystod amserau bwyd, er, gwelsom wrth arsylwi fod hyn yn dal i ddigwydd mewn rhai mannau. Nododd staff fod hyn yn digwydd yn bennaf gyda meddyginiaethau oedd angen cael eu cymryd â bwyd. Mae'n bosibl y gellid addasu'r prosesau hyn.<br>Mae'r hysbysiadau amser bwyd wedi'i ddiogelu sydd ar fynedfeydd y wardiau'n amrywio o ran maint a natur ar draws y Bwrdd Iechyd. Gellir gweld rhai'n glir, ond mae eraill yn fach ac wedi'u rhoi mewn lleoedd na ellir eu gweld.<br>Mae'r rhan fwyaf o'r wardiau'n cau eu drysau yn ystod amserau bwyd, ond nid pob un. Caiff lefel y golau mewn coridorau wardiau ei haddasu mewn rhai wardiau er mwyn ceisio atal unrhyw darfu ar amser bwyd.<br>Mewn nifer bychan o wardiau, mae'r amserau ymweld yn gwrthdaro â rhai o'r amserau bwyd a ddiogelir. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae trefniadau ar waith i nodi cleifion a allai fod angen cymorth arbennig i fwyta eu bwyd. | ✓ | Mae rhai o'r wardiau oedolion yn gweithredu'r system hambwrdd coch i nodi pa gleifion sydd angen cymorth i fwyta.<br>Mewn rhai wardiau mae symbolau'n cael eu rhoi uwchben gwelyau cleifion i nodi cleifion ag anghenion arbennig. |
| Mae cleifion yn cael cymorth i fwyta lle bo angen. | ✓ | Wrth arsylwi ar arferion wardiau, gwelwyd fod y mwyafrif o gleifion yn cael cymorth pan fo angen.<br>Roedd y cymorth a roddwyd gan staff nyrsio hyfforddedig a chynorthwywyr gofal iechyd yn amrywio ar draws wardiau. Roedd yr amserau bwyd a arsylwyd yn cael eu harwain gan Nyrs Gofrestredig. |
| Mae cleifion yn gallu cael byrbrydau pan nad yw hi'n amser bwyd. | ✓ | Mae'r trefniadau ar gyfer darparu byrbrydau ar wardiau'n amrywio ar draws y Bwrdd Iechyd, ac mae'r un peth yn wir am y polisi sy'n ymwneud â pha gleifion sydd â hawl i gael byrbrydau.<br>Weithiau, mae'r staff yn gofyn i'r ceginau am fwyd y tu allan i'r amserau bwyd arferol. Nodwyd bod y staff arlwyo'n ddigon hapus i ddarparu hyn, er bod sylwadau'r staff nyrsio'n awgrymu bod i ba raddau mae'r gwasanaeth hwn ar gael yn amrywio yn ôl y staff arlwyo sydd ar ddyletswydd ar y pryd. |
| Mae cymeriant bwyd cleifion yn cael ei fonitro'n rheolaidd drwy ddefnyddio'r Siart Cofnodi Bwyd Cymru Gyfan. | ✓/✗ | Mewn egwyddor, mae gan gleifion sydd mewn perygl canolig ac uchel siart cofnodi bwyd i gofnodi cymeriant bwyd. Yn ymarferol, gwelsom fod pa mor aml y cwblheir siartiau'n amrywio.<br>Dywedodd staff ei bod hi'n anodd cofnodi'r cymeriant bwyd yn gywir os nad oedd gwaith arsylwi yn cael ei wneud ar yr adeg y mae'r cleifion yn gorffen eu prydau bwyd. Weithiau maent yn dibynnu ar yr hyn mae'r claf y ei ddweud am faint mae wedi bwyta. |
| Mae'r siart cofnodi bwyd yn cael ei gydlofnodi gan nyrs gofrestredig ar ddiwedd pob shifft. | ✓/✗ | Defnyddir siartiau bwyd ar draws y Bwrdd Iechyd, er gwelsom nad oeddent bob amser yn cael eu cydlofnodi gan nyrs hyfforddedig. |
| Mae siartiau mewnbwn ac allbwn hylifau dyddiol ac wythnosol yn cael eu defnyddio. | ✓/✗ | Mae siartiau hylif Cymru gyfan yn cael eu defnyddio, ond ni chânt eu cwblhau'n rheolaidd bob amser.<br>Nododd y staff fod fformat y siart yn anodd i'w defnyddio ac nad yw'n darparu lle i roi'r holl wybodaeth y gallai fod angen ei nodi. |
| Mae siartiau mewnbwn ac allbwn hylifau wythnosol yn cael eu cydlofnodi gan nyrs gofrestredig unwaith y dydd. | ✓/✗ | Nid oedd siartiau hylifau yn cael eu cydlofnodi gan nyrs gofrestredig pob amser. |

## Casglu barn cleifion a rhannu gwybodaeth

36. Mae barn cleifion ar fwyd mewn ysbyty a'r gwasanaethau arlwyo'n cael ei gasglu mewn sawl ffordd ac mae yna le i wneud y gweithgareddau hyn yn fwy cyson ac i rannu'r canlyniadau'n fwy eang. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
    - mae mentrau i ganfod safbwyntiau cleifion ar y gwasanaethau bwyd ac arlwyo yn cael eu casglu a'u dadansoddi ar wahân gan y staff arlwyo a'r staff nyrsio;
    - mae'r arolwg cleifion a gynhaliwyd fel rhan o'r archwiliad hwn wedi amlygu amrywiaeth o safbwyntiau sydd angen eu hystyried fel rhan o'r gwaith cynllunio a monitro arferol.

37. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad.

**Tabl 5: Casglu barn cleifion ar y gwasanaeth arlwyo**

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae yna weithgareddau rheolaidd i gasglu barn cleifion ar y gwasanaethau arlwyo, a'u profiad ohonynt. | ✓ | Mae'r tair adran arlwyo lleol yn cynnal arolygon boddhad cleifion yn gyfnodol ar wahân. Er y bydd angen parhaus i ganolbwyntio ar faterion sy'n berthnasol yn lleol, erbyn hyn hefyd mae yna botensial i gydgysylltu'r gwaith hwn ar draws y Bwrdd Iechyd. Gellir rhannu'r dysgu wedyn yn fwy eang a, lle bo'n briodol, gellir canfod atebion cyffredin. Dros amser dylai'r gweithgarwch hwn gynorthwyo hefyd i lywio dull strategol cyson o ddarparu gwasanaeth. |
| Mae defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu cynrychioli mewn grwpiau cynllunio arlwyo. | ✓/✗ | Er bod y grwpiau gweithredu maeth ac arlwyo'n cynnwys y CICau perthnasol, nid oes unrhyw drefniadau ar waith i gynnwys grwpiau cleifion yn uniongyrchol. |
| Mae defnyddwyr gwasanaethau'n cymryd rhan mewn adolygiadau o ansawdd y gwasanaeth. | ✓/✗ | Mae cleifion wedi cymryd rhywfaint o ran mewn adolygiadau ansawdd.<br>Pan fo cleifion wedi cymryd rhan yn uniongyrchol mae eu cyfraniad wedi bod yn ddefnyddiol, a dylid eu hannog i gymryd rhan. |
| Mae trefniadau effeithiol a cydgysylltiedig ar waith i ddefnyddio barn cleifion a phrofiadau grwpiau staff i gefnogi'r gwaith o wella gwasanaeth. | ✓/✗ | Mae lle i wella i ba raddau y mae safbwyntiau a phrofiadau cleifion a grwpiau staff yn cael eu rhannu'n lleol ac ar draws y Bwrdd Iechyd.<br>Mae archwiliadau Hanfodion Gofal yn cynnig cyfle sylweddol bellach i gymharu arferion ar draws y Bwrdd Iechyd, ac i rannu canfyddiadau ar draws grwpiau proffesiynol. |

38. Mae trefniadau monitro'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys cyfuniad o arolygon boddhad cleifion achlysurol ac arolygon boddhad blynyddol cleifion, a rheolwyr a goruchwylwyr yn cynnal rhaglen ffurfiol o wiriadau ar hap a monitro ansawdd. Gellid cynnwys y rhaglen yn fwy cyson mewn gweithgareddau arferol, yn enwedig yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Dywedodd cyfran sylweddol o gleifion nad oeddynt yn dewis maint dogn eu bwyd. Roedd tua 20 y cant o gleifion yn credu nad oeddynt yn cael digon i'w fwyta

39. Mae dadansoddiad cryno (Ffigur 8) o farn cleifion a gasglwyd yn ystod yr archwiliad yn awgrymu bod cyfle i'r Bwrdd Iechyd wella trefniadau asesiad maeth a chynnwys cleifion mewn gwaith ym maes iechyd maethol. Nid oedd cleifion bob amser yn cofio cael eu pwyso nac yn cofio siarad â staff nyrsio neu ddietegwyr am eu hanghenion maeth.

40. Yn gyffredinol, roedd lefel boddhad â'r gwasanaeth yn gymharol dda, er bod y lefel yn is na chyfartaledd Cymru yn yr arolwg hwn. Nid oedd tua 28 y cant o'r cleifion yn hapus gyda'r bwyd a gawsant. Mae hyn yn awgrymu y gall fod yna gyfle i adrannau arlwyo edrych ar ansawdd eu prydau bwyd ac ystyried mwy o weithgarwch ar draws gwasanaethau a phaneli cynnwys cleifion fel modd o gyflawni adborth mwy effeithiol.

**Ffigur 9: Canfyddiadau allweddol yr arolwg cleifion**

| Cwestiwn | Bwrdd Iechyd BC | Cymru |
|---|---|---|
| Canran yr ymatebwyr a gafodd eu pwyso yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty | 63% | 67% |
| Canran yr ymatebwyr y mesurwyd eu taldra yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty | 32% | 32% |
| Canran yr ymatebwyr lle roedd aelod o staff yr ysbyty wedi trafod eu hanghenion deietegol â hwy | 41% | 41% |
| Canran yr ymatebwyr a oedd yn gallu dewis maint dogn y pryd bwyd | 74% | 65% |
| Canran yr ymatebwyr a gollodd bryd o fwyd, ac a gafodd un arall yn ei le | 77% | 80% |
| Canran y cleifion a oedd yn teimlo nad oeddynt yn cael digon i'w fwyta | 80% | 87% |
| Canran yr ymatebwyr a oedd yn fodlon â'r bwyd a gawsant | 72% | 82% |

41. Mae dadansoddiad llawnach o ymatebion yr arolwg yn Atodiad 3.

## Atodiad 1

# Y dull archwilio

Roedd yr archwiliad yn ceisio ateb y cwestiwn cyffredinol: ‘A yw ysbytai yng Nghymru yn darparu gwasanaethau arlwyo effeithlon sy’n cydymffurfio ag arfer da cydnabyddedig?’

Mae’r is-gwestiynau canlynol yn sail i’r cwestiwn cyffredinol:

- A yw’r trefniadau cynllunio strategol ar gyfer arlwyo yn effeithiol?
- A yw’r trefniadau caffael yn effeithiol ac yw’r bwyd yn dod o gyflenwyr diogel?
- A yw prosesau cynhyrchu bwyd yn cael eu rheoli’n dda?
- A oes trefniadau effeithlon ar waith ar gyfer dosbarthu’r bwyd i’r wardiau ac i’r claf?
- A yw’r trefniadau ar y wardiau’n helpu i ddiwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi eu gwellhad?
- A oes trefniadau effeithiol ar waith i ymgynghori â chleifion ynglŷn â’r gwasanaeth arlwyo a dderbyniant?

Datblygwyd modiwl archwilio ar gyfer pob un o’r is-gwestiynau a restrir uchod.

**Ffigur 10: Modiwlau archwilio**

| Modiwl | Offer Archwilio |
|---|---|
| **Modiwl 1**: Trefniadau cynllunio strategol | Dadansoddiad o gost<br>Arolwg o brofiadau cleifion<br>Rhestr wirio trefniadau rheoli<br>Cyfweliadau |
| **Modiwl 2**: Trefniadau caffael | Dadansoddiad o gost<br>Rhestr wirio trefniadau rheoli<br>Archwiliad o’r broses<br>Cyfweliadau |
| **Modiwl 3**: Rheoli’r prosesau cynhyrchu | Dadansoddiad o gost<br>Arolwg o brofiadau cleifion<br>Rhestr wirio trefniadau rheoli<br>Archwiliad o’r broses<br>Arolwg ansawdd bwyd<br>Cyfweliadau |
| **Modiwl 4**: Trefniadau dosbarthu i wardiau | Arolwg o brofiadau cleifion<br>Offeryn arsylwi ar wardiau<br>Arolwg ansawdd bwyd<br>Cyfweliadau |

| | |
|---|---|
| **Modiwl 5**: Cefnogi gwellhad | Arolwg o brofiadau cleifion<br>Offeryn arsylwi ar wardiau<br>Offeryn arsylwi ar wastraff<br>Arolwg ansawdd bwyd<br>Offeryn asesu maeth<br>Cyfweliadau |
| **Modiwl 6**: Ymgysylltu â chleifion | Arolwg o brofiadau cleifion<br>Cyfweliadau |

Atodiad 2

# Cymharu costau

### Costau Arlwyo ar gyfer Cleifion

| | |
|---|---|
| **Ysbyty:** | **Ysbyty Cyffredinol Llandudno** |
| **BILl/Ymddiriedolaeth** | **Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr** |

**Materion Allweddol**

Mae cost gwirioneddol fesul diwrnod claf i'r ysbyty yn £7.54 o gymharu â ffigwr £7.51 ar gyfer BILl/Ymddiriedolaeth a ffigwr o £10.04 ar gyfer Cymru.

**Cost Arlwyo ar gyfer Cleifion fesul Diwrnod Claf**
**£7.54** (Y)
£7.51 (B)
£10.04 (C)

Cyfanswm Costau Arlwyo ar gyfer Cleifion
**£296,784** (Y)

Costau Staff Arlwyo ar gyfer Cleifion
**£157,038** (Y)

Costau Nwyddau Arlwyo ar gyfer Cleifion
**£131,557** (Y)

Costau Eraill Arlwyo ar gyfer Cleifion
**£8,189** (Y)

Cyfanswm Nifer Dyddiau Cleifion
**39,356** (Y)

Nifer Dyddiau Cleifion Mewnol
**37,589** (Y)

Nifer Dyddiau Cleifion Dydd ac Achosion Dydd
**1,767** (Y)

Cost fesul Diwrnod Claf

| | Staff | Nwyddau | Eraill |
|---|---|---|---|
| (Y) | **£3.99** | **£3.34** | **£0.20** |
| (B) | £4.30 | £3.00 | £0.21 |
| (C) | £6.46 | £3.18 | £0.38 |

| | |
|---|---|
| **Prif ddull coginio:** | Confensiynol 0 |
| **Ailbaratoi bwyd:** | Ddim yn berthnasol |
| **Cyflenwi gwasanaeth:** | Swmp-ddosbarthu i'r wardiau |
| **Golchi llestri:** | Golchi llestri ar y wardiau |

**Allwedd**
**Ffigurau'r ysbyty mewn print trwm;**
Ffigurau'r BILl/Ymddiriedolaeth mewn glas;
Ffigurau Cymru mewn coch.
**Nodiadau**
Mae ffigurau'r BILl/Ymddiriedolaeth a ffigurau Cymru yn seiliedig ar yr ysbytai a gymerodd ran yn yr arolwg. Ni cymerodd pob ysbyty yng Nghymru ran ynddo
Mae cyfartaledd y BILl yn seiliedig ar Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor yn unig, gan na ddarparwyd data ar gyfer Ysbyty Cyffredinol Llandudno ac Ysbyty Gwynedd
Mae costau staff wedi'u dosrannu rhwng gweithgareddau ar gyfer cleifion a'r rhai nad ydynt yn gleifion yn seiliedig ar gyfartaledd Cymru, yn hytrach na ffigurau a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd
Mae costau "eraill" wedi'u dosrannu rhwng gweithgareddau ar gyfer cleifion a'r rhai nad ydynt yn gleifion yn seiliedig ar gyfartaledd Cymru yn hytrach na ffigurau a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd


## Cyfanswm Costau Arlwyo

**Ysbyty:** **Ysbyty Glan Clwyd**
**BILl/Ymddiriedolaeth:** **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**Materion Allweddol**

Mae cyfanswm cost net fesul diwrnod claf i'r ysbyty yn £9.86 o gymharu â ffigwr o £8.39 ar gyfer y BILl a ffigwr o £11.08 ar gyfer Cymru

Mae'r gost yn cynnwys cymhorthdal o £0.59 am bob £1.00 sy'n cael ei gwario ar wasanaethau arlwyo ar gyfer rhai nad ydynt yn gleifion.




**Allwedd**
**Figurau'r ysbyty mewn print trwm;**
Ffigurau'r BILl/Ymddiriedolaeth mewn glas;
Ffigurau Cymru mewn coch.

**Nodiadau**
Mae ffigurau'r BILl/Ymddiriedolaeth a ffigurau Cymru yn seiliedig ar yr ysbytai a gymerodd ran yn yr arolwg. Nid chymerodd pob ysbyty yng Nghymru ran ynddo.
Mae cyfartaledd y BILl yn seiliedig ar Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor yn unig, gan na ddarparwyd data ar gyfer Ysbyty Cyffredinol Llandudno ac Ysbyty Gwynedd

## Costau Arlwyo ar gyfer Cleifion

**Ysbyty:** **Ysbyty Glan Clwyd**
**BILl/Ymddiriedolaeth:** **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**Materion Allweddol**

Mae cost gwirioneddol fesul diwrnod claf i'r ysbyty yn £8.55 o gymharu â ffigwr o £7.51 ar gyfer y BILl/Ymddiriedolaeth a ffigwr o £10.04 ar gyfer Cymru.

- **Cost Arlwyo ar gyfer Cleifion fesul Diwrnod Claf**: **£8.55** (Y); £7.51 (B); £10.04 (C)
  - Cyfanswm Costau Arlwyo ar gyfer Cleifion: **£1,720,822** (Y)
    - Costau Staff Arlwyo ar gyfer Cleifion: **£1,106,349** (Y) — Cost fesul Diwrnod Claf: **£5.49** (Y); £4.30 (B); £6.46 (C)
    - Costau Nwyddau Arlwyo ar gyfer Cleifion: **£554,954** (Y) — Cost fesul Diwrnod Claf: **£2.75** (Y); £3.00 (B); £3.18 (C)
    - Costau Eraill Arlwyo ar gyfer Cleifion: **£59,519** (Y) — Cost fesul Diwrnod Claf: **£0.29** (Y); £0.21 (B); £0.38 (C)
  - Cyfanswm Nifer Dyddiau Cleifion: **201,263** (Y)
    - Nifer Dyddiau Cleifion Mewnol: **188,562** (Y)
    - Nifer Dyddiau Cleifion Dydd ac Achosion Dydd: **12,701** (Y)

| | |
|---|---|
| **Prif ddull coginio:** | Confensiynol Wedi prynu prydau wedi'u rhewi |
| **Ailbaratoi bwyd:** | Yn ganolog cyn dosbarthu |
| **Cyflenwi gwasanaeth:** | Cymysg |
| **Golchi llestri:** | Golchi llestri yn ganolog |

**Allwedd**
**Figurau'r ysbyty mewn print trwm;**
Ffigurau'r BILl/Ymddiriedolaeth mewn glas;
Ffigurau Cymru mewn coch.

**Nodiadau**
Mae ffigurau'r BILl/Ymddiriedolaeth a ffigurau Cymru yn seiliedig ar yr ysbytai a gymerodd ran yn yr arolwg. Nid chymerodd pob ysbyty yng Nghymru ran ynddo.
Mae cyfartaledd y BILl yn seiliedig ar Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor yn unig, gan na ddarparwyd data ar gyfer Ysbyty Cyffredinol Llandudno ac Ysbyty Gwynedd

## Costau Gweithgarwch nad yw ar gyfer Cleifion

**Ysbyty:** **Ysbyty Glan Clwyd**
**BILl/Ymddiriedolaeth:** **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**Materion Allweddol**

Nid yw'r gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion yn gwneud cyfraniad i gostau'r ysbyty

Mae gwasanaeth arlwyo'r Ysbyty yn rhoi cymhorthdal o £0.59 am bob £1.00 sy'n cael ei gwario ar brydau nad ydynt ar gyfer cleifion

| | | | Cost am bob £ o Incwm | |
|---|---|---|---|---|
| Costau Staffio Arlwyo i rai nad ydynt yn Gleifion | **£348,377** | (Y) | **£0.79** | (Y) |
| | | | £0.65 | (B) |
| | | | £0.71 | (C) |
| Costau Nwyddau Arlwyo i rai nad ydynt yn Gleifion | **£309,988** | (Y) | **£0.70** | (Y) |
| | | | £0.63 | (B) |
| | | | £0.51 | (C) |
| Costau Eraill Arlwyo i rai nad ydynt yn Gleifion | **£46,000** | (Y) | **£0.10** | (Y) |
| | | | £0.07 | (B) |
| | | | £0.06 | (C) |
| **Cyfanswm** | | | **£1.59** | (Y) |
| | | | £1.35 | (B) |
| | | | £1.28 | (C) |

Cyfanswm Costau Arlwyo i rai nad ydynt yn Gleifion
**£704,365** (Y)

Incwm Arlwyo i rai nad ydynt yn Gleifion
**£440,416** (Y)

**Cyfraniad**
**-£263,949** (Y)
-£370,245 (B)
-£2,671,103 (C)

| Cyfraniad am bob £ o Incwm | | Cyfraniad fel % o gyfanswm costau rhai nad ydynt yn gleifion | |
|---|---|---|---|
| **-£0.59** | (Y) | **-37.5%** | (Y) |
| -£0.35 | (B) | -27.1% | (B) |
| -£0.28 | (C) | -22.7% | (C) |

| **Peiriannau Gwerthu** | |
|---|---|
| Costau Nwyddau | £0.00 |
| Costau Rhentu | £0.00 |
| **Cyfanswm Costau** | £0.00 |
| **Incwm** | £0.00 |

**Allwedd**
**Figurau'r ysbyty mewn print trwm;**
Ffigurau'r BILl/Ymddiriedolaeth mewn glas;
Ffigurau Cymru mewn coch.

**Nodiadau**
Mae ffigurau'r BILl/Ymddiriedolaeth a ffigurau Cymru yn seiliedig ar yr ysbytai a gymerodd ran yn yr arolwg. Nid chymerodd pob ysbyty yng Nghymru ran ynddo.
Mae cyfartaledd y BILl yn seiliedig ar Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor yn unig, gan na ddarparwyd data ar gyfer Ysbyty Cyffredinol Llandudno ac Ysbyty Gwynedd


## Cyfanswm Costau Arlwyo

**Ysbyty:** **Ysbyty Maelor**
**BILl/Ymddiriedolaeth:** **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**Materion Allweddol**

Mae cyfanswm cost net fesul diwrnod claf i'r ysbyty yn £7.06 o gymharu â ffigwr o £8.39 ar gyfer y BILl a ffigwr o £11.08 ar gyfer Cymru

Mae'r gost yn cynnwys cymhorthdal o £0.18 am bob £1.00 sy'n cael ei gwario ar wasanaethau arlwyo ar gyfer rhai nad ydynt yn gleifion.





**Allwedd**
**Figurau'r ysbyty mewn print trwm;**
Ffigurau'r BILl/Ymddiriedolaeth mewn glas;
Ffigurau Cymru mewn coch.
**Nodiadau**
Mae ffigurau'r BILl/Ymddiriedolaeth a ffigurau Cymru yn seiliedig ar yr ysbytai a gymerodd ran yn yr arolwg. Nid chymerodd pob ysbyty yng Nghymru ran ynddo.
Mae cyfartaledd y BILl yn seiliedig ar Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor yn unig, gan na ddarparwyd data ar gyfer Ysbyty Cyffredinol Llandudno ac Ysbyty Gwynedd

## Costau Arlwyo ar gyfer Cleifion

**Ysbyty:** **Ysbyty Maelor**
**BILl/Ymddiriedolaeth:** **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**Materion Allweddol**

Mae cost gwirioneddol fesul diwrnod claf i'r ysbyty yn £6.58 o gymharu â ffigwr o £7.51 ar gyfer y BILl/Ymddiriedolaeth a ffigwr o £10.04 ar gyfer Cymru.




| | |
|---|---|
| **Prif ddull coginio:** | Cymysg (nodwch) confnsiynol ac oeri/rhewi wedi'i baratoi ar y safle |
| **Ailbaratoi bwyd:** | Yn ganolog cyn dosbarthu |
| **Cyflenwi gwasanaeth:** | Cymysg |
| **Golchi llestri:** | Cymysg |

**Allwedd**
**Figurau'r ysbyty mewn print trwm;**
Ffigurau'r BILl/Ymddiriedolaeth mewn glas;
Ffigurau Cymru mewn coch.

**Nodiadau**
